CYPE(6)-05-21 - Papur i'w nodi 12

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Darlun o Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hydref 2021



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

**Prif adroddiad 6**

Strategaeth addysg uwch ac addysg bellach 8

Cyllid addysg uwch ac addysg bellach 12

Perfformiad addysg uwch ac addysg bellach 18

Addysg uwch ac addysg bellach galw a chapasiti 27

Addysg uwch ac addysg bellach materion allweddol 29


# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o allbynnau Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021. Mae ein prif adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 yn crynhoi rhai o'r tueddiadau allweddol mewn cyllid cyhoeddus ac yn nodi ein safbwynt ar rai o'r materion allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gwybodaeth allweddol am addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru gan gynnwys y cyd-destun gweithredu strategol a'r cyllid. Mae'n archwilio capasiti yn y sector, perfformiad, a materion neu heriau allweddol yn ein barn ni. Rydym hefyd yn trafod agweddau ar addysg yn ein taflen gryno ysgolion.

Ni fwriedir i'r adroddiad hwn fod yn gynhwysfawr. Mae'n nodi'r hyn a ystyriwn yn rhai o'r materion allweddol ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach, gan gydnabod y bydd gan sylwebyddion a chyrff adolygu eraill eu safbwynt eu hunain ar y materion allweddol. Pan fo'n bosibl, rydym wedi defnyddio data sy'n ymdrin â materion neu themâu tebyg mewn addysg uwch ac addysg bellach. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r adroddiad hwn fod yn gymhariaeth rhwng y ddau sector.

Mae’r adroddiad yn seiliedig ar gyfuniad o’n gwaith cyhoeddedig yn ogystal ag ymchwil gan sefydliadau eraill. Mae’n defnyddio data sy’n cwmpasu cymysgedd o flynyddoedd ariannol ac academaidd[1].Cyd-destun addysg uwch ac addysg bellach




1 Rydym yn nodi blynyddoedd ariannol, sy’n rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth fel, er enghraifft 2019-20. Rydym yn nodi blynyddoedd academaidd, o 1 Awst i 31 Gorffennaf fel, er enghraifft, 2019/20.

# Prif adroddiad

## Darparu addysg uwch ac addysg bellach mewn cyfnod heriol

1 Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau enfawr i wasanaethau cyhoeddus a’r bobl sy’n eu darparu. Mewn addysg uwch ac addysg bellach, bu’n rhaid i staff a myfyrwyr addasu i heriau dysgu ar-lein ac addysgu wyneb yn wyneb mewn amgylcheddau a oedd yn ddiogel o safbwynt COVID. Mae pob un ohonom yn Archwilio Cymru yn talu teyrnged i ymroddiad ac ymdrechion eithriadol gweision cyhoeddus yn ystod y cyfnod anodd hwn.

2 Ar yr adeg yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd effeithiau uniongyrchol COVID-19 yn dal i gael eu teimlo. Roedd gwaith i ddeall effeithiau anuniongyrchol COVID-19 wedi dechrau, ond roedd yn rhy gynnar i fesur maint a graddau’r effeithiau hyn. Er gwaethaf yr heriau sylweddol sydd o’n blaenau, mae cyfleoedd i ailadeiladu a darparu gwasanaethau’n wahanol, gan ddysgu o’r ymateb cyfunol i COVID-19.

## Strwythurau a chyfrifoldebau

3 Llywodraeth Cymru sy’n pennu’r polisi a’r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer addysg ôl-orfodol yng Nghymru (**Arddangosyn 1**). Mae gan Gymru wyth prifysgol a thri ar ddeg o golegau addysg bellach, yn ogystal â’r Brifysgol Agored. Mae sawl darparwr dysgu seiliedig ar waith hefyd a hyfforddiant ac addysg ôl-16 arall yng Nghymru. Mae sefydliadau addysg uwch (AU) ac addysg bellach (AB) yn gyfreithiol annibynnol ar y llywodraeth. Nid ydynt yn rhan o’r sector cyhoeddus. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn elusennau cofrestredig. Er hynny, mae llawer o agweddau ar eu gweithrediad yn ddarostyngedig i reoliadau’r llywodraeth[2] ac fe’u cefnogir gan gyllid cyhoeddus.

2 Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sy’n bennaf gyfrifol am reoleiddio sefydliadau AU; Llywodraeth Cymru yw’r prif reoleiddiwr ar gyfer AB.

**Arddangosyn 1: addysg ôl-orfodol yng Nghymru**

Addysg uwch (AU): math o addysg sydd fel arfer yn dod i ben gyda dyfarnu gradd neu ddiploma ar lefel 4 o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru[3] neu uwch. Mae hyn yn cynnwys graddau baglor sylfaen ac israddedig, yn ogystal â graddau ôl-raddedig, megis graddau meistr a PhD. Mae hefyd yn cynnwys cymwysterau eraill, megis Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HND) neu brentisiaethau gradd. Mae'r strwythur AU yn debyg i'r un yn Lloegr, ond mae gwahaniaethau sylweddol o gymharu â Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae cyrsiau AU fel arfer yn cael eu hastudio mewn prifysgolion ond weithiau mewn colegau addysg bellach.

Addysg bellach (AB) yw unrhyw addysg ôl-orfodol nad yw'n addysg uwch. Mae myfyrwyr AB yn astudio tuag at gymwysterau technegol a galwedigaethol, megis NVQ a BTEC, yn ogystal â chymwysterau cyffredinol, megis Safon Uwch. Mae'r strwythur AB hwn yn union yr un fath â'r system yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yn debyg i'r un yn yr Alban.

3 Llywodraeth Cymru, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, Tachwedd 2018

# Strategaeth addysg uwch ac addysg bellach

**Dull gweithredu cyffredinol**

4 Nid oes un ddogfen sy’n nodi strategaeth fanwl Llywodraeth Cymru ar addysg a sgiliau ôl-orfodol. Mae dull strategol Llywodraeth Cymru wedi deillio o amrywiaeth o adolygiadau ac astudiaethau[4] ac mae’n adlewyrchu cyfyngiadau ariannol a datblygiadau polisi ar lefel y DU. Mae’n rhan o gyd-destun ehangach diwygio mewn addysg orfodol cyn-16[5]. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ceisio integreiddio ei dull gweithredu ag agendâu polisi ehangach ar ddatblygu economaidd a chydraddoldeb o dan fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

4 Cyhoeddir adolygiadau, astudiaethau a chynlluniau ar wefan Llywodraeth Cymru.

5 Mae ein hadroddiad Darlun o Ysgolion yn nodi rhai o’r agweddau allweddol ar ddiwygio addysg orfodol yng Nghymru.

5 Mae 'Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw' yn un o bedwar prif amcan yng nghynllun gweithredu blaenorol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi[6]. Nod cyffredinol Llywodraeth Cymru yw hybu a gwella llwybrau academaidd a galwedigaethol i addysg uwch ac addysg bellach er mwyn rhoi i ddysgwyr y sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol. Nod Llywodraeth Cymru hefyd yw cydlynu ymchwil ac arloesi er mwyn galluogi sefydliadau i greu effeithiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gweledigaeth strategol[7] gydag egwyddorion ar gyfer newid. Mae amcanion allweddol y dull gweithredu yn cynnwys:

- **cynyddu'r gyfradd gweithgarwch economaidd** drwy ymyrryd i helpu pobl i ymuno â'r farchnad lafur;
- **codi lefelau cymwysterau** ar draws y gweithlu a sicrhau bod cymwysterau'n diwallu anghenion economi sy'n newid;
- darparu **llwybrau clir** o un lefel o sgil i'r llall, ar draws pob rhan o'r system addysg a hyfforddiant, a dileu ffiniau artiffisial rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol;
- hybu **dysgu gydol oes** ac ehangu'r gallu i gael darpariaeth sgiliau gydol oes;
- cynyddu **darpariaeth cyfrwng Cymraeg** mewn AB ac i raddau llai mewn AU;
- **symleiddio ac integreiddio ymyriadau'r llywodraeth** fel eu bod yn darparu system effeithiol a symlach i unigolion a busnesau gael y cymorth y mae ei angen arnynt, gyda chydweithio cryf rhwng rhanddeiliaid; a
- dwyn ynghyd yr holl **gyllid ymchwil** a sicrhau bod penderfyniadau ariannu yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru, gan gynnwys anghenion y sectorau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol.

6 Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd, Rhagfyr 2017

7 Llywodraeth Cymru, Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol: Gweledigaeth Strategol Tachwedd 2020

6 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio defnyddio'r cyllid sydd ar gael mewn cyd-destun o gyfyngiadau ariannol:

- fel yr argymhellwyd gan Adolygiad Diamond[8] yn 2016, mae myfyrwyr AU bellach yn talu ffioedd dysgu yn bennaf drwy fenthyciadau, a grantiau cynhaliaeth ar gyfer costau byw yn cael eu darparu i rai myfyrwyr. Roedd hyn yn disodli grantiau ffioedd dysgu.
- mae polisi o gyd-fuddsoddi mewn sgiliau; mae cyllid cyhoeddus yn canolbwyntio ar sgiliau dan 25 oed a sgiliau lefel uwch, a disgwylir i gyflogwyr ariannu hyfforddiant a datblygiad arall sydd o fudd i'w busnesau.
- defnyddio caffael sector cyhoeddus i gynyddu'r ddarpariaeth sgiliau, er enghraifft, drwy ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu hyfforddiant fel amod o gontractau adeiladu gwerth uwch.

7 Yn dilyn argymhellion Adolygiad Hazelkorn[9] yn 2016, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu corff cyhoeddus newydd, annibynnol i weinyddu'r system addysg a hyfforddiant ôl-16 gyfan, gan gynnwys AU, AB a hyfforddiant galwedigaethol. Byddai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yn ariannu, yn rheoleiddio ac yn cydlynu'r sector ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau perthnasol CCAUC a Llywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn yn ymarferol annibynnol, ond bydd yn gweithredu ar sail cynllun strategol pum mlynedd a gymeradwywyd gan Weinidogion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ddeddfwriaeth ddrafft cyn i'r Senedd ystyried y ddeddfwriaeth[10] a'i bwriad yw y bydd y CTER yn dod i fodolaeth yn 2023.

## Ymateb COVID-19

8 Fel gydag addysg orfodol, symudodd dysgu yn y sector ôl-orfodol ar-lein yn ystod yr ymateb cychwynnol i'r pandemig. Fel yr oedd y cyfyngiadau yn caniatáu, newidiodd dysgu i ddull 'cyfunol' o addysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein. Yn ystod hydref 2020, cyflwynwyd elfennau ymarferol o gymwysterau galwedigaethol yn gynt oherwydd y rhagwelwyd y byddai ton o COVID-19 yn ystod y gaeaf.

9 Ym mis Mai 2020, fel ymateb i bandemig COVID-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cadernid ar gyfer y sector ôl-16[11]. Roedd hwn yn nodi grwpiau blaenoriaeth ar gyfer cymorth, cydgysylltu wedi'i gynllunio gydag ysgolion lleol ac roedd yn nodi risgiau nad oedd dysgwyr yn gallu cael gafael ar dechnoleg ar gyfer dysgu.

8 Panel Adolygu Diamond, Yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Medi 2016

9 Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen, Mai 2016

10 Bil Addysg Ymchwil (Cymru) Drydyddol ddrafft, Rhagfyr 2020

11 Llywodraeth Cymru, Covid-19: Cynllun Cadernid ar gyfer y Sector Ôl-16, Mai 2020

10 Rhannwyd y Cynllun Cadernid yn dri cham:

- **Achub:** sicrhau bod sicrwydd a chyllid gan ddarparwyr a bod trefniadau digonol ar gyfer parhad dysgu ar waith. Gwnaeth Llywodraeth Cymru atal dros dro y broses o gasglu ystadegau am berfformiad addysg bellach ac addysg oedolion, gwnaeth Estyn atal dros dro ei arolygiadau o golegau AB ac fe wnaeth CCAUC leihau nifer ei ofynion rheoliadol.
- **Adolygu:** cynllunio ar gyfer newidiadau posibl i ddarparu, cyllido a chyflenwi dysgu ar ôl i'r cyfnod achub ddod i ben. Roedd y cynllun yn rhagweld dychwelyd yn raddol i ddysgu wyneb yn wyneb, gostyngiad yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol a chynnydd mewn diweithdra gan arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth.
- **Adnewyddu:** trefniadau diwygiedig ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol a gwerthuso effaith COVID-19. Bydd y cam hwn yn cynnwys cynllunio i ddiwallu anghenion newidiol yr economi, adolygu dulliau comisiynu ac ariannu a sefydlu agweddau cadarnhaol ar ymateb y pandemig, gan gynnwys dysgu digidol.

11 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r sectorau AB ac AU. Darparwyd pecynnau o £27 miliwn a £23 miliwn i AU ac AB yn y drefn honno ym mis Gorffennaf 2020, ac yna £95.5 miliwn ychwanegol ar gyfer AU yn ddiweddarach yn 2020-21, yr oedd £50 miliwn ohono ar gyfer gwasanaethau lles myfyrwyr a myfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol, £1.5 miliwn i ddarparu profiad gwaith i raddedigion diweddar a £44 miliwn ar gyfer cyfalaf gwariant gan brifysgolion.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

12 Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026[12] yn cynnwys 'Gwarant Pobl Ifanc' a fyddai'n gwarantu'r cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb dan 25 oed. Mae'r Rhaglen hefyd yn cynnwys ymrwymiad i basio'r ddeddfwriaeth ddrafft a baratowyd yn y Senedd flaenorol, polisïau i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol, targed i greu 125,000 o brentisiaethau ac adolygiad o'r broses o gynyddu cyfranogiad.

12 Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu, Mehefin 2021

# Cyllid addysg uwch ac addysg bellach

## Cyllid addysg uwch

13 Mae gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer AU ar ffurf dwy ffrwd ariannu yn bennaf:

- Cyllid **cymorth i fyfyrwyr** ar **ffurf benthyciadau** a **grantiau**.
- **Grantiau'n uniongyrchol i brifysgolion** gan CCAUC ar gyfer addysgu, ymchwil a blaenoriaethau penodol.

14 Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, ar ffurf benthyciadau neu grantiau cynhaliaeth i'w cefnogi lle bynnag y byddant yn astudio (**Arddangosyn 2**). Mae ein hadroddiad ar gyllid myfyrwyr[13] yn dangos bod cyfanswm y cymorth ariannol blynyddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr mewn AU wedi cynyddu 24% mewn termau real ers 2015-16, gan gyrraedd bron i £1.1 biliwn yn 2019-20. Yn dilyn Adolygiad Diamond, mae'r cydbwysedd rhwng grantiau a benthyciadau wedi newid wrth i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ei grantiau ar gefnogi myfyrwyr gyda chostau byw, yn hytrach na ffioedd dysgu. Roedd cyllid grant Llywodraeth Cymru o £386 miliwn yn 2019-20 13% yn is nag yn 2015-16 mewn termau real. Dros yr un cyfnod, mae grantiau wedi'u gostwng o 51% i 36% o'r cymorth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

**Arddangosyn 2: ffioedd dysgu a benthyciadau myfyrwyr**


Mae prifysgolion yn codi ffioedd dysgu i fyfyrwyr. Yng Nghymru, mae ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig wedi'u capio ar hyn o bryd ar £9,000 y flwyddyn i fyfyrwyr y DU. Nid oes cap ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, gan gynnwys y rhai hynny o'r UE.

Mae ein hadroddiad diweddar ar gyllid myfyrwyr yn disgrifio'r system cyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sy'n dod o Gymru. Mae'r adroddiad yn amlinellu rhai o'r meini prawf cymhwysedd, y cymysgedd o grantiau a benthyciadau, a throthwyon ad-dalu. Yn 2019-20, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y bydd 65c yn cael ei adennill am bob punt sy'n cael ei benthyca i fyfyrwyr. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n dod o Gymru yn mynd i brifysgolion Cymru; mae tua 30% yn mynd i Loegr ac 1% i'r Alban neu Ogledd Iwerddon.

13 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid myfyrwyr, Awst 2021

15 Mae prifysgolion Cymru hefyd yn derbyn grantiau gan CCAUC (a ariennir gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer addysgu, ymchwil a blaenoriaethau penodedig eraill, a all amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Gostyngodd grantiau addysgu yn sylweddol rhwng 2011/12 a 2015/16 wrth i gyllid Llywodraeth Cymru symud i gefnogi'r polisi o ffioedd dysgu uwch a chyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu yn 2012/13. Parhaodd y grantiau addysgu i ostwng i 2017/18 ond ers hynny maent wedi cynyddu (**Arddangosyn 3**). Gostyngodd grantiau ymchwil a grantiau eraill rhwng 2015/16 a 2017/18 ond maent wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn grantiau eraill yn 2020/21 oherwydd cyllid sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae prifysgolion hefyd yn derbyn grantiau ymchwil o ffynonellau cyhoeddus eraill ac yn codi eu hincwm eu hunain o ffynonellau masnachol.

**Arddangosyn 3: Dyraniadau CCAUC ar gyfer ymchwil, addysgu a mentrau eraill, 2011/12 i 2020/21 (prisiau termau real 2019-20)**




Nodiadau:


1 Gostyngodd CCAUC ei ddyraniadau cyllid arfaethedig i brifysgolion £26 miliwn yn 2016/17, £24 miliwn yn 2017/18 a £13 miliwn yn 2018/19, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Nid oedd CCAUC yn nodi pa ddyraniadau cyllid penodol y dylid eu torri, ac nid yw ychwaith yn cadw gwybodaeth am sut y dosbarthwyd y gostyngiadau cyffredinol gan brifysgolion. Mae'r siart yn tybio bod y gostyngiad wedi'i gymhwyso'n gymesur i bob math o grant.

2 Yn 2020/21, dosbarthodd CCAUC £78.5 miliwn (£73.3 miliwn mewn termau real) o gyllid ychwanegol i liniaru effaith COVID-19, llawer ohono ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Mae'r cyllid hwn wedi'i gynnwys yn y categori 'Arall'.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddyraniadau cyllid CCAUC

16 Mae cyfanswm incwm prifysgolion Cymru wedi bod yn gymharol sefydlog mewn termau real tua £1.6 biliwn y flwyddyn rhwng 2015/16 a 2019/20. Fodd bynnag, gostyngodd 4% yn 2019/20 pan ddigwyddodd pandemig COVID-19 oherwydd colli incwm o ffynonellau megis cynadleddau a ffioedd preswyl. Mae gan brifysgolion Cymru sylfaen ariannu amrywiol. Daw'r rhan fwyaf o incwm prifysgolion Cymru o grantiau ffioedd dysgu a chymorth, a oedd yn werth tua £0.9 biliwn yn 2019/20 (**Arddangosyn 4**). Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid ffioedd dysgu gan fyfyrwyr y DU. Roedd myfyrwyr rhyngwladol yn cyfrif am 26% o'r incwm ffioedd dysgu yn 2019-20, gyda myfyrwyr o'r UE yn cyfrif am gyfran gymharol fach o'r incwm hwn.[14] Mae ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol fel arfer yn sylweddol uwch na rhai myfyrwyr y DU.

**Arddangosyn 4: holl incwm grant ffioedd dysgu a chymorth prifysgolion Cymru, 2016/17 i 2019/20 (prisiau termau real 2019-20)**




Nodyn: Mae ffioedd nad ydynt yn dwyn credyd yn ymwneud â gweithgareddau y mae'n ofynnol i fyfyrwyr eu cwblhau ond nad ydynt yn cario credyd tuag at eu graddau. Mae ffioedd cyrsiau AB yn incwm ar gyfer darparu cyrsiau AB a chyrsiau nad ydynt yn rhai uwch a ddarperir gan brifysgol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Higher Education Statistics Agency

14 Codwyd yr un ffioedd dysgu i fyfyrwyr UE â myfyrwyr y DU tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2020/21.

## Cyllid addysg bellach

17 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r rhan fwyaf o gostau AB drwy grantiau i golegau ar gyfer cyflwyno rhaglenni dysgu i fyfyrwyr cymwys, yn ogystal â grantiau ar gyfer dysgu oedolion a thaliadau i gontractwyr sy'n gweinyddu prentisiaethau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i helpu pobl i fynd i'r farchnad lafur, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru ac ymyriadau i helpu'r rhai sydd ymhellach o'r farchnad lafur, megis y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc 14 i 24 oed.

18 Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer AB wedi'i rannu rhwng ffrydiau ariannu amrywiol (**Arddangosyn 5**). Mae'r rhain yn cynnwys cyllid craidd[15] ar gyfer colegau AB a chweched dosbarth mewn ysgolion, sy'n gysylltiedig â niferoedd dysgwyr ac sydd wedi aros yn weddol sefydlog ers 2016/17. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol yn 2020-21 oherwydd pandemig COVID-19 (**paragraff 11**). Rhwng 2011/12 a 2016/17, gostyngodd cyllid refeniw ar gyfer colegau addysg bellach 13%[16], a oedd yn deillio'n gyfan gwbl o ostyngiadau mewn cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser. Mae gwerth termau real cyffredinol y cyllid craidd ar gyfer colegau addysg bellach wedi aros yn weddol sefydlog ers hynny[17]. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu tua £5 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol neu ddysgu oedolion yn y gymuned a thua £120 miliwn y flwyddyn i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith.[18]


15 Darperir dyraniadau ar wefan Llywodraeth Cymru.

16 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Llywodraeth Cymru yn goruchwylio cyllid a darpariaeth colegau addysg bellach, Chwefror 2017

17 Mae Llywodraeth Cymru wedi addasu'r fformiwla ariannu ar gyfer sefydliadau unigol adlewyrchu newidiadau demograffig yn well rhwng dalgylchoedd y colegau, a allai fod wedi arwain at newidiadau i'r lefelau ariannu ar gyfer rhai sefydliadau.

18 Dyfernir contractau i ddarparwyr yn seiliedig ar fanyleb a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y canllawiau presennol yn cwmpasu y cyfnod 2015-2021 a chyhoeddir manylion y contract ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Arddangosyn 5: addysg bellach, dysgu cymunedol, chweched dosbarth, dysgu seiliedig ar waith a chyllid arall sy'n gysylltiedig ag AB Llywodraeth Cymru, 2016-17 i 2020-21 (prisiau termau real 2019-20)**




Nodyn: Defnyddiwyd cyllideb derfynol y flwyddyn ar gyfer pob swm. Mae gwariant arall sy'n gysylltiedig ag AB yn cynnwys buddsoddiadau, Erasmus a phrosiectau iechyd meddwl.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Perfformiad addysg uwch ac addysg bellach

19 Mae amrywiaeth o fesurau perfformiad ar draws AU ac AB. Mewn AU, mae CCAUC yn cyhoeddi data ar ehangu mynediad, profiad myfyrwyr, sgiliau a chyflogadwyedd, ac ymchwil[19]. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data perfformiad ar y sector AB bob blwyddyn[20] gan gynnwys data ar gwblhau, llwyddiant, demograffeg ac amddifadedd. Rydym wedi dewis data perfformiad sy'n rhoi darlun eang o'r ddau sector. Rydym hefyd wedi ceisio cynnwys safbwyntiau'r myfyrwyr o ddata arolygon.

**Uchelgeisiau ar gyfer yr economi, sgiliau a chyfranogiad yw'r cyd-destun ehangach ar gyfer perfformiad AU ac AB**


20 Mae gan Gynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru (2018) dargedau i gau'r bwlch gyda chyfartaledd y DU ar dri mesur: diweithdra, anweithgarwch economaidd a lefelau cymwysterau'r boblogaeth o oedran gweithio. Er y bu gwelliant cyson ym mhob un o'r tri mesur ers 2010, mae'r bwlch gyda chyfartaledd y DU ar gyfer cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso ar lefelau 2, 3 a 4 wedi ehangu. I'r gwrthwyneb, mae'r bwlch ar gyfer anweithgarwch economaidd wedi gostwng ac roedd diweithdra'n is na chyfartaledd y DU ar ddiwedd 2019.

21 Mae ymgysylltu â phobl ifanc wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ers peth amser. Mae'r lefelau amcangyfrifedig o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (a elwir yn NEET) wedi aros yn gyson yn fras dros y degawd diwethaf (**Arddangosyn 6**). Mae nifer y bobl ifanc NEET rhwng 19 a 24 oed wedi gostwng yn sylweddol ers y pwynt uchel yn 2012.

19 Cyhoeddir y rhain yn flynyddol, gweler: CCAUC, Mesurau cenedlaethol 2018/19 – crynodeb, Rhagfyr 2020

20 Llywodraeth Cymru, Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyflawniad, Awst 2018 i Orffennaf 2019, Chwefror 2020

**Arddangosyn 6: amcangyfrif o'r ganran o bobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yng Nghymru, 2010 i 2019**





Ffynhonnell: StatsCymru

**Mae nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru mewn addysg uwch llawn amser wedi cynyddu, tra bod astudio rhan-amser mewn addysg uwch ac addysg bellach wedi gostwng yn sylweddol**

22 Yn gyffredinol, cynyddodd nifer y myfyrwyr AU tua 32,500 (31%) rhwng 2010/11 a 2019/20 (**Arddangosyn 7**). Digwyddodd llawer o'r cynnydd hwnnw yn 2013/14. Mae nifer y cofrestriadau israddedig llawn amser wedi cynyddu bob blwyddyn. Mae nifer y cofrestriadau rhan-amser wedi gostwng ers 2013/14. Ymhlith myfyrwyr rhan-amser bu patrwm o gofrestriadau cynyddol gyda'r Brifysgol Agored o'i gymharu â gostyngiadau mewn sefydliadau eraill. Mae data CCAUC yn dangos bod nifer a chyfran yr israddedigion sy'n dod o ardaloedd mwy difreintiedig[21] ac o leiafrifoedd ethnig wedi cynyddu rhwng 2016/17 a 2018/19.

21 Mae CCAUC yn adrodd ar nifer a chyfran yr israddedigion sy'n dod o bumed isaf a'r ddau bumed isaf o ardaloedd fel y'i rhestrir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.

**Arddangosyn 7: cofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru yn ôl lefel a dull astudio, 2010/11 i 2019/20**





Nodyn: Rydym wedi cynnwys data ar y Brifysgol Agored yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Nid yw data ar gyfer myfyrwyr llawn amser y Brifysgol Agored yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd gan StatsCymru oherwydd bod y data yn 'datgelu neu nad ydynt yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi'.

Ffynhonnell: StatsCymru

23 Mae nifer y dysgwyr llawn amser mewn colegau AB a chweched dosbarth wedi bod yn sefydlog tra bod nifer y dysgwyr rhan-amser wedi gostwng yn sylweddol, gan barhau â thuedd ers 2010 (**Arddangosyn 8**). Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer darpariaeth llawn amser yn unol â›r ddyletswydd statudol i wneud darpariaeth resymol ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed. Mae nifer y dysgwyr sy'n seiliedig ar waith (prentisiaid yn bennaf) wedi cynyddu ychydig, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd ei tharged i ddarparu 100,000 o brentisiaethau i bobl o bob oed dros gyfnod pum mlynedd y Senedd hyd at 2021. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd gostyngiad tymor byr mewn prentisiaethau newydd oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig COVID-19.

**Arddangosyn 8: dysgwyr unigryw wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth mewn ysgolion, 2015-16 i 2019-20**




Ffynhonnell: StatsCymru

24 Mae cyfraddau cadw AU wedi bod yn sefydlog ar gyfer myfyrwyr llawn amser, gyda thua 6% o fyfyrwyr o dan 21 oed yn gadael eu cwrs yn gynnar bob blwyddyn, o'i gymharu ag 11 i 12% o fyfyrwyr dros 21 oed rhwng 2014/15 a 2018/19. Roedd cyfraddau cadw yn llawer is ar gyfer myfyrwyr rhan-amser; gadawodd tua 33% o fyfyrwyr o dan 30 eu cwrs yn gynnar yn 2017-18, a gwnaeth 31% o fyfyrwyr dros 30 oed hynny. Fodd bynnag, bu gwelliant sylweddol i'r ddau grŵp oedran rhan-amser ers 2014/15, lle'r oedd cyfraddau'n 43% ar gyfer myfyrwyr dan 30 oed a 37% ar gyfer myfyrwyr aeddfed.

**Cynyddodd cyrhaeddiad academaidd yn raddol, roedd cyfraddau cyflawniad galwedigaethol yn sefydlog cyn y pandemig, ond mae'r pandemig wedi arwain at ganlyniadau gwahanol yn dibynnu ar gymhwyster**

25 Mae prifysgolion Cymru wedi dyfarnu anrhydeddau dosbarth cyntaf yn gynyddol i fyfyrwyr: cynyddodd y gyfran o 22% yn 2015/16 i 28% yn 2018/19 a chynnydd sydyn i 35% yn 2019/20. Enillodd tua hanner y graddedigion anrhydeddau yn yr ail ddosbarth uchaf drwy gydol y cyfnod, a bu tueddiad ar i lawr mewn anrhydeddau ail ddosbarth isaf. Mae'r duedd hon yn gyson ar draws astudiaethau rhan-amser a llawn amser. Mae'r tueddiadau hyn yng Nghymru yn adlewyrchu patrymau ledled y DU yn fras er bod myfyrwyr rhan-amser ym mhrifysgolion Cymru yn tueddu i gael dyfarniadau uwch na chyfartaledd y DU.

26 Mae'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch (HESA) wedi cynnal dau arolwg canlyniadau graddedigion ar gyfer graddedigion o 2017/18 a 2018/19[22]. Canfu fod 61%o israddedigion o Gymru mewn gwaith pan gynhaliwyd yr arolwg ar ôl graddio – gostyngiad o 4% ers 2017/18. Canfu'r arolwg fod 25% o'r 25% yn dilyn astudiaethau pellach ac 8% yn ddi-waith – cynnydd o 23% a 5% yn y drefn honno. Mae HESA yn nodi bod arolwg 2018/19 wedi'i gynnal yn ystod y pandemig ac y gallai hyn fod wedi effeithio ar yr ymatebion.

27 Mae tua 30% o fyfyrwyr Safon Uwch yn mynychu colegau ABar gyfer eu hastudiaethau[23]. Mae data Cymwysterau Cymru yn dangos bod cyflawniad mewn colegau AB wedi gwella'n raddol ers 2016[24]. Yn 2016, cyflawnodd 74.0% o'r canlyniadau A*-C o'i gymharu â 77.8% erbyn 2019. Yn gyson pasiwyd tua 98% o'r Safon Uwch (gradd A* i G) dros yr un cyfnod. Yn 2020, cafodd myfyrwyr mewn colegau AB gynnydd mawr mewn graddau Safon Uwch, yn dilyn symud i raddau a aseswyd gan y ganolfan oherwydd y pandemig[25]. Cafodd tua 92% A* i C a chafodd 38% A neu A*. Roedd y cynnydd mawr hwn yn adlewyrchu'r duedd mewn ysgolion.

22 HESA, Ystadegau Canlyniadau Graddedigion Addysg Uwch: DU, 2018/19 – Gweithgareddau a nodweddion graddedigion, Gorffennaf 2021

23 Mae'r rhan fwyaf o addysgu at Safon Uwch yn digwydd mewn ysgolion, sydd hefyd yn darparu rhai cyrsiau galwedigaethol (Estyn, Partneriaethau Ôl-16: cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau, 2021).

24 Cymwysterau Cymru, Amrywiadau yng nghanlyniadau cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru, Haf 2020, Hydref 2020

25 Roedd graddau a aseswyd gan y Ganolfan yn seiliedig ar asesiad proffesiynol yr athrawon o'r hyn y byddai'r disgybl wedi'i gyflawni pe baent yn gallu sefyll arholiad. Gallai athrawon ddefnyddio unrhyw feini prawf y dymunant wrth amcangyfrif graddau gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) waith cwrs wedi'i gwblhau, ffug arholiadau neu gyflawniad academaidd blaenorol.


28 Roedd cyfraddau cyrhaeddiad (pasio) yn gyson yn y cyfnod cyn y pandemig (**Arddangosyn 9**). Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae pandemig COVID-19 wedi arwain at gyfraddau cyrhaeddiad is am sawl rheswm. Hanerodd y gyfradd gyflawni ar gyfer prentisiaethau o 70% yn 2019 i 35% yn 2020. Mae 29% arall o brentisiaethau yn parhau y tu hwnt i'r dyddiad gorffen disgwyliedig i ganiatáu amser ar gyfer oedi mewn profiad ymarferol, ond daeth 36% i ben heb i'r canlyniadau gofynnol gael eu cyflawni[26]. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y 15% mewn blynyddoedd blaenorol ac mae'n adlewyrchu'r anawsterau wrth ddarparu dysgu seiliedig ar waith yn ystod y pandemig. Yn ôl Estyn[27], yr oedd yr anawsterau hyn yn cynnwys:

- yr her o gynnal addysgu ac asesiadau ymarferol ar-lein;
- cau busnesau a oedd yn darparu prentisiaethau a phrofiad gwaith; ac
- mewn rhai achosion amharodrwydd cyrff dyfarnu i newid dulliau asesu yn ddigonol er mwyn osgoi oedi.

26 Efallai bod rhai o'r prentisiaid hyn wedi cyflawni'r dysgu angenrheidiol ond roedd eu darparwr yn aros am gadarnhad o'u canlyniadau pan gasglwyd y data.

27 Estyn, Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol, 2021.

**Arddangosyn 9: cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer myfyrwyr addysg ôl-orfodol, 2017 i 2020**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

29 Ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, cymysg oedd y darlun. Cynyddodd y gyfradd basio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol lefel 3 (ar lefel Safon Uwch) o 81% yn 2019 i 85% yn 2020. Gostyngodd cyfraddau pasio lefelau is yn sydyn; er enghraifft, 9% ar gyfer cymwysterau lefel 2.

30 Mae’r cyfraddau cwblhau ar gyfer Safon Uwch wedi bod yn sefydlog ar tua 95% ar draws pob lleoliad (ysgolion ac AB). Mae’r cyfraddau cwblhau ar gyfer cyrsiau galwedigaethol[28] yn is, sef tua 88% ar gyfer dysgwyr galwedigaethol a 75% ar gyfer prentisiaethau yn y cyfnod cyn y pandemig. Gostyngodd y gyfradd ychydig i 85% yn 2020 ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a gostyngodd yn sydyn i 52% ar gyfer prentisiaethau oherwydd bod y pandemig yn ei gwneud yn anodd darparu profiad ymarferol hanfodol yn y gweithle. Roedd yr effaith yn amrywio yn ôl sector, a bu’r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol, gwallt a harddwch ac adeiladu yn arbennig o wael. Daw’r ystadegau ar gyfer 2019 o Fesurau Perfformiad Cyson Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Ôl-16: Cyflawniad, Awst 2018 i Orffennaf 2019, Chwefror 2020. Daw’r data ar gyfer 2020 gan Lywodraeth Cymru, Canlyniadau i Ddysgwyr mewn Addysg Ôl-16 a Effeithiwyd gan Bandemig y Coronafeirws (COVID-19): Awst 2019 i Orffennaf 2020, Ebrill 2021[29].


**Roedd cyfraddau bodlonrwydd myfyrwyr prifysgol yn uchel ac yn gymharol sefydlog tan 2019 ond gostyngodd yn sylweddol yn ystod y pandemig**

31 Mewn AU, mae boddhad cyffredinol myfyrwyr wedi amrywio tua 85% dros y degawd diwethaf, gyda boddhad ymhlith myfyrwyr llawn amser ychydig ar y blaen i fyfyrwyr rhan-amser. Yn 2020/21, effeithiwyd ar foddhad myfyrwyr gan y pandemig, gyda boddhad yn gostwng i 76% ar gyfer myfyrwyr llawn amser a rhan-amser (**Arddangosyn 10**). Gostyngodd boddhad ymhlith myfyrwyr AU yn Lloegr yn yr un modd o ganlyniad i’r pandemig.

28 Ystadegau o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sy’n cynnwys data o bob lleoliad ôl-orfodol ac eithrio ysgolion.

29 Daw’r ystadegau ar gyfer 2019 o Fesurau Perfformiad Cyson Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Ôl-16: Cyflawniad, Awst 2018 i Orffennaf 2019, Chwefror 2020. Daw’r data ar gyfer 2020 gan Lywodraeth Cymru, Canlyniadau i Ddysgwyr mewn Addysg Ôl-16 a Effeithiwyd gan Bandemig y Coronafeirws (COVID-19): Awst 2019 i Orffennaf 2020, Ebrill 2021.

**Arddangosyn 10: boddhad myfyrwyr ag ansawdd y cwrs ym mhrifysgolion Cymru, 2015/16 i 2020/21**




Ffynhonnell: Swyddfa Myfyrwyr y DU, Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr

32 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi casglu data arolwg yn rheolaidd gan fyfyrwyr AB ers 2015. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2020, cynhaliwyd arolwg gyda dysgwyr ar effaith y pandemig ar eu hastudiaethau ac roedd 69% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn fodlon ar eu darpariaeth ar-lein.[30] Mae'r arolwg yn gofyn i ddysgwyr fyfyrio ar eu profiadau yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ym mis Mawrth 2020 a dywedodd cyfran is (64%) eu bod yn fodlon ar eu darpariaeth ar-lein bryd hynny.


30 Llywodraeth Cymru, Arolwg o effaith Covid-19 ar ddysgwyr, Mawrth 2021

# Addysg uwch ac addysg bellach – galw a chapasiti

**Bydd y galw am addysg uwch ac addysg bellach yn cynyddu ac yna'n gostwng oherwydd newidiadau demograffig**

33 Nid yw lleoedd AU ac AB yn gyfyngedig yng Nghymru ac maent yn dibynnu ar y galw a roddir ar sefydliadau drwy wneud cais. Mae rhagamcan StatsCymru yn awgrymu y bydd y boblogaeth rhwng 16 a 21 oed yn tyfu o 2021 ac yn cyrraedd uchafbwynt yn 2029, ac ar ôl hynny bydd gostyngiad (**Arddangosyn 11**). Yr her allweddol fydd creu digon o gapasiti i gefnogi hyd at 31,000 o ddysgwyr newydd gan hefyd allu rheoli gostyngiad cyflym yn y galw.

**Arddangosyn 11: rhagamcan poblogaeth Cymru rhwng 16 a 21 oed rhwng 2018 a 2045**




Nodyn: Cynhyrchwyd y rhagamcanion demograffig hyn yn 2018. Ers hynny, bu gostyngiad sydyn yn y gyfradd genedigaethau sy'n golygu bod y gostyngiad mewn pobl ifanc 16 i 21 oed ar ôl 2029 yn debygol o fod yn fwy cyflym na'r hyn a ddangosir yma.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

34 Mae nifer y staff AU wedi cynyddu dros 3,000 (16%) rhwng 2010/11 ac 2019/20[31]. Mae'r twf hwn mewn staffio gryn dipyn yn is na'r twf o 31% yn nifer y myfyrwyr mewn AU. Gostyngodd nifer y staff mewn colegau AB 17% rhwng 2012/13 a 2015/16 oherwydd cyfyngiadau ariannol ond ers hynny maent wedi cynyddu ac maent 8% yn uwch yn 2019/20 nag yn 2010/11[32]. Cred Llywodraeth Cymru y bydd y newid i ddysgu cyfunol, gan gymysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn ogystal ag amseroedd astudio mwy amrywiol, yn galluogi mwy o gapasiti i gael ei ddatgloi o'r ystadau a'r lefelau staffio presennol. Serch hynny, bydd yn rhaid aros i weld a fydd y lefelau staffio presennol yn parhau i fod yn ddigonol i fodloni'r cynnydd tebygol yn y galw.

31 StatsCymru, Staff mewn SAU yng Nghymru yn ôl rhyw, sefydliad, blwyddyn, dull cyflogaeth, math o gontract a math o gyflogaeth, Ionawr 2021

32 StatsCymru, Niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn mewn Sefydliadau Addysg Bellach yn ôl sefydliad, Gorffennaf 2021

# Addysg uwch ac addysg bellach – materion allweddol

**Mae colegau a phrifysgolion yn wynebu pwysau ariannol o ganlyniad i COVID-19 a phensiynau**

35 Roedd dadansoddiad ar ddechrau pandemig COVID-19 yn rhagweld effaith andwyol sylweddol ar AU ac AB. Amcangyfrifodd Dadansoddiad Cyllidol Cymru y gallai colledion fod rhwng £100-140 miliwn i brifysgolion, a 'heriau gweithredol sylweddol yn y tymor canolig' ar gyfer pump o'r wyth sefydliad yng Nghymru[33]. Mae llawer o'r golled yn deillio o ostyngiad yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol a bydd angen i lawer o brifysgolion adfer niferoedd i lefelau cyn y pandemig er mwyn dychwelyd i gynaliadwyedd ariannol. Daeth ymchwil ar gyfer Undeb y Prifysgolion a'r Colegau[34] i'r casgliad y byddai £98 miliwn yn cael ei golli gan brifysgolion Cymru mewn ffioedd dysgu yn unig oherwydd y pandemig, gan arwain at bedair o'r wyth prifysgol yn gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn. Gan fod myfyrwyr fel arfer yn astudio am dair blynedd, byddai gostyngiad mewn incwm ffioedd dysgu, domestig a rhyngwladol, yn cael ei deimlo dros gyfnod tymor canolig.

36 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i'r ddau sector i wrthbwyso rhai o'r costau ychwanegol a grëwyd gan COVID-19 (**paragraff 11**), ond mae'n debygol y bydd costau parhaus wrth iddynt ddod allan o'r pandemig. Gallai unrhyw gyfyngiadau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 gynyddu costau neu leihau cynhyrchiant. Bydd angen ariannu darpariaeth dal i fyny ar gyfer myfyrwyr sydd wedi syrthio ar ei hôl hi, yn enwedig ar gyfer dysgwyr galwedigaethol. Ar hyn o bryd, mae swm a natur unrhyw arian ychwanegol yn ansicr.

37 Mae angen i'r ddau sector fynd i'r afael â rhwymedigaethau pensiwn sylweddol sy'n deillio o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig. Mae Cynllun Pensiwn y Brifysgol dan bwysau arbennig, gyda diffyg cyffredinol o £15-18 biliwn ledled y DU. Mae manteision wedi gostwng ac mae cyfraniadau staff wedi cynyddu'n sylweddol, gan arwain at anghydfodau diwydiannol a streiciau mynych. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i gyfraniadau cyffredinol (staff a chyflogwyr) godi o 31% o'r cyflog i rhwng 42% a 56% i gau'r diffyg[35]. Mae colegau AB yng Nghymru hefyd yn wynebu diffyg cynyddol ar gyfer dau brif gynllun pensiwn y sector; roedd eu cyfrifon ar gyfer 2019/20 yn cynnwys diffygion o £436 miliwn.

33 Cymru Dadansoddiad Cyllidol, Covid-19 a'r Sector Addysg Uwch yng Nghymru, Mai 2020

34 Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, Effaith Covid-19 ar gyllid prifysgolion yng Nghymru, Mai 2020

35 Cynllun Pensiwn y Brifysgol, 'Bydd angen i gyfraniadau pensiwn godi'n sydyn os yw'r buddion presennol i gael eu cynnal', datganiad newyddion, Mawrth 2021

38 Er gwaethaf y pwysau hyn, mae CCAUC wedi dod i'r casgliad nad oes perygl uniongyrchol y bydd sefydliad yn methu, ac mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r un casgliad ar gyfer colegau addysg bellach. Mae anfanteision ariannol posibl dros y degawd nesaf o gynnydd yn y boblogaeth o bobl ifanc 18 i 21 oed (y grŵp demograffig craidd ar gyfer prifysgolion) er bod hynny'n debygol o gael ei ddilyn gan ddirywiad yn nifer y dysgwyr yn y grŵp oedran hwnnw.

39 Mae'r graddau y gall prifysgolion Cymru elwa o'r anfanteision posibl hyn yn dibynnu i raddau ar ddewisiadau polisi yn gysylltiedig â niferoedd myfyrwyr. Yn benodol, bydd gan ymateb Llywodraeth y DU i Adolygiad Augar o addysg a chyllid ôl-18 yn Lloegr[36] oblygiadau pwysig o ran cyllid a niferoedd myfyrwyr yng Nghymru. Argymhellodd yr adolygiad y dylid newid pwyslais tuag at addysg alwedigaethol a thechnegol lefel uwch, gyda llai o raddau 'gwerth isel' mewn prifysgolion a gostyngiad mewn ffioedd dysgu o £9,000 i £7,500 y flwyddyn. Pe bai'n cael ei weithredu'n llawn, byddai'r adolygiad yn arwain at rywfaint o gyllid ychwanegol i Gymru drwy fformiwla Barnett.

40 Mae nifer y ceisiadau yn 2021 yn awgrymu bod y rhagolygon uniongyrchol ar gyfer incwm ffioedd dysgu yn gadarnhaol i fyfyrwyr y DU a myfyrwyr rhyngwladol. Mae cyfleoedd posibl i'r ddau sector o'r cynnydd arfaethedig yn y ddarpariaeth brentisiaethau (gan gynnwys mwy o brentisiaethau gradd) a phwyslais Llywodraeth Cymru ar ddysgu gydol oes. Mae cyfleoedd hefyd i ddarparu mwy o ddysgu yn ddigidol yn dilyn y pandemig.

41 Yr her i Lywodraeth Cymru fydd helpu'r sectorau AU ac AB i fanteisio ar y cyfleoedd hyn gan hefyd gefnogi sefydliadau i reoli'r pwysau a'r risgiau ariannol hysbys. Mae Colegau Cymru wedi galw am fwy o sicrwydd o ran cyllid yn y dyfodol ac i gyllid barhau i fod yn ddigon hyblyg i sicrhau cynllunio lleol pwrpasol dros y tymor canolig. Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar gyllid a pherfformiad AB yn 2017 ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ddychwelyd at gyllidebu tair blynedd ar gyfer y sector addysg bellach. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ariannol ac ansicrwydd wedi arwain Llywodraeth Cymru i gynnal cyllidebu blynyddol.

## Mae AU ac AB yn wynebu heriau wrth reoli rhai o ganlyniadau parhaus Brexit

### Niferoedd myfyrwyr

42 Mae Brexit wedi arwain at ostyngiad yn nifer y myfyrwyr o aelod-wladwriaethau'r UE gan eu bod bellach yn wynebu ffioedd uwch. Roedd ffioedd dysgu gan fyfyrwyr o'r UE yn cynrychioli tua 5% o incwm y sector AU yng Nghymru yn 2018/19 a bydd angen disodli colledion er mwyn cynnal cyllid prifysgolion. Mae'r arwyddion cynnar yn gadarnhaol: ar gyfer 2021-22 mae'r gostyngiad mewn ceisiadau gan drigolion yr UE wedi'i wrthbwyso gan gynnydd mewn ceisiadau o fannau eraill.

36 Adroddiad y Panel Annibynnol i'r Adolygiad o Addysg a Chyllid Ôl-18, Mai 2019

## Disodli cyllid yr UE

43 Cyn Brexit, manteisiodd Cymru'n helaeth ar gyllid yr UE, gan gynnwys ar gyfer ymchwil ac arloesi drwy'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI). Gwariwyd llawer o'r cyllid ymchwil ac arloesi hwn ar raglenni a ddarperir gan y sector AU[37]. Mae Llywodraeth y DU yn disodli'r ESI gyda Chronfa Ffyniant a Rennir y bydd yn ei gweinyddu'n uniongyrchol a bydd ar gael ledled y DU. Nid yw maint a natur y cyllid hwn i Gymru yn glir ar hyn o bryd.

44 Yn y cyd-destun hwn, bydd yn hanfodol i brifysgolion fanteisio ar ffynonellau cyllid amgen ar gyfer ymchwil. Gwnaeth adolygiad Reid[38] dri argymhelliad i'r perwyl hwn, gan gynnwys sefydlu cronfa 'Dyfodol Cymru' i gymell ymchwilwyr i gael cyllid o'r tu allan i Gymru. Mae Prifysgolion Cymru wedi galw am weithredu'r argymhellion hyn, ond oherwydd y costau sylweddol y byddai angen eu talu o gyllidebau'r dyfodol dim ond i un ohonynt y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo.

45 Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu her ychwanegol i fod â chyllid i gymryd lle cyllid ESI ar gyfer prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith arall, llawer ohono'n cael ei ddarparu gan golegau AB ac yn rhan bwysig o'u hincwm.

## Cynnal cydweithio a chyfnewidiadau

46 Mae prifysgolion yn gweithio i gynnal cydberthnasau academaidd ac ymchwil a ddatblygwyd drwy raglenni a ariennir gan yr UE. Mae'r DU wedi cynnal mynediad i raglen ymchwil Horizon 2020, ond nid yw bellach yn cymryd rhan yn rhaglen gyfnewid dysgu Erasmus+. Rhwng 2014 a 2020, gwnaeth 683 o fyfyrwyr o Gymru gais i'r cynllun i astudio mewn prifysgol arall yn Ewrop[39] ac roedd y cynllun yn ariannu cyfnewidfeydd i mewn hefyd.

47 Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu'r Cynllun Turing yn hytrach na chefnogi lleoliadau tramor ar gyfer myfyrwyr y DU. Mae'r cynllun yn agored i sefydliadau ledled y byd ac felly mae ganddo bwyslais mwy byd-eang nag Erasmus+, ond nid yw'n ariannu ffioedd dysgu nac yn ariannu cyfnewidfeydd i mewn ac mae gofynion fisa ychwanegol ar gyfer cyfnewidfeydd cyfatebol a allai hefyd gymhlethu'r broses o adnewyddu neu drefnu rhaglenni cyfnewid newydd rhwng sefydliadau.

37 Fel cyfanswm, roedd gan brosiectau dan arweiniad y sectorau AB ac AU tua £388 miliwn o gyllid yr UE wedi'i gymeradwyo yng nghylchoedd ariannu 2014-2020, gan gynnwys £252 miliwn o gyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020: Prosiectau Cymeradwy, Diweddarwyd Chwefror 2021

38 Llywodraeth Cymru, Adolygiad o Ymchwil ac Arloesedd a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru, Rhagfyr 2017

39 Erasmus Plus UK, Ceisiadau 2014-2020 a Dderbyniwyd, Chwefror 2021

48 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio goresgyn rhai o'r rhwystrau posibl hyn drwy sefydlu cynllun 'Cyfnewidfa Ddysgu Ryngwladol' i Gymru'n unig i ategu'r Cynllun Turing. Mae cyllid ar gael i fyfyrwyr ddod i Gymru i astudio, yn ogystal â myfyrwyr o Gymru sy'n teithio dramor. Mae gan gynllun Cymru hefyd bwyslais ehangach Erasmus ar gyfer gwaith galwedigaethol, addysg oedolion a gwaith ieuenctid.

## Mae cyfleoedd a heriau i reoli o ran diwygio addysg ôl-16

### Cadw arfer da o ymateb y pandemig

49 Mae'r ymateb i'r pandemig wedi dod â rhai newidiadau buddiol a allai fod yn sail i weithio yn y dyfodol. Dywedodd Colegau Cymru a Phrifysgolion Cymru wrthym fod cydweithio wedi cryfhau gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau yn cydweithio i ymateb i'r argyfwng gydag ymyriadau cyflym a hyblyg. Mae datblygu technegau dysgu digidol wedi cyflymu, ac mae llawer o gyrsiau'n debygol o gynyddu eu cynnwys digidol yn barhaol, er y bydd y rhan fwyaf o gyrsiau'n cynnwys addysgu wyneb yn wyneb fel rhan o ddull cyfunol.

### Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

50 Wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y bydd yn bwrw ymlaen â'i chynlluniau diwygio ar gyfer addysg ôl-16. Yn flaenllaw i hyn y mae'r Bil Drafft Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sydd i'w ystyried o hyd gan y Senedd, a chreu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) o ganlyniad i hynny. Ceir safbwyntiau cymysg ar rinweddau'r newidiadau a ragwelir yn y bil. Yn benodol, mae rhywfaint o bryder y gallai'r cytundebau canlyniadau newydd a threfniadau atebolrwydd eraill weithredu mewn ffordd rhy gul a chyfyngol sy'n canolbwyntio gormod ar allbynnau mesuradwy fel niferoedd a graddau myfyrwyr a dim digon ar ganlyniadau ehangach i fyfyrwyr a chymdeithas. Mae pryder hefyd ynghylch effaith y cynigion ar annibyniaeth prifysgolion.

51 Bydd arweinyddiaeth y comisiwn newydd yn wynebu llawer o heriau uniongyrchol a thymor hirach. Bydd angen iddo fynd i'r afael â phryderon rhai rhanddeiliaid am y trefniadau newydd, datblygu ymddiriedaeth gyda sefydliadau a rhanddeiliaid eraill, a galluogi cydweithio gan hefyd barchu ymreolaeth sefydliadol. Bydd angen i'r comisiwn newydd hefyd ddatblygu strategaeth gydlynol a hirdymor i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Bydd angen iddo reoli'r heriau hyn wrth sefydlu'r comisiwn newydd o ran yr aflonyddwch anochel a achosir gan newid sefydliadol.

### Cyflawni'r ymrwymiadau penodol yn y rhaglen lywodraethu newydd

52 Mae gan y Rhaglen Lywodraethu dargedau penodol i ddarparu 125,000 o brentisiaethau ar gyfer pobl o bob oed dros dymor presennol y Senedd (cynnydd o 25%) ac i gynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bob plentyn dan 25 oed o dan Warant y Person Ifanc. Bydd y rhain yn heriol i'w cyflawni mewn cyd-destun economaidd anodd, yn enwedig os cyfyngir ar wariant cyhoeddus. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y prentisiaethau newydd yn 2019/20 ac mae'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar y ddarpariaeth, gyda chyflogwyr y sector preifat yn llai parod i ymgymryd â phrentisiaid, neu a llai o allu i wneud hynny, mewn amgylchedd gweithredu mor anodd.

53 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cynnydd mewn diweithdra yn dilyn diwedd cynllun ffyrlo Llywodraeth y DU, sy'n debygol o gynyddu'r galw am y Warant i Bobl Ifanc. Mae maint y galw yn ansicr ar hyn o bryd ond gallai fod yn uchel, gan fod tua 48,000 o bobl ifanc NEET 16 i 24 oed yng Nghymru eisoes a gallai'r nifer godi wrth i gyfleoedd cyflogaeth ddirywio. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod y gost rhwng £27 miliwn ac £82 miliwn yn y flwyddyn gyntaf, yn dibynnu ar y nifer sy'n manteisio arni, gan ostwng tua thraean yn y blynyddoedd dilynol. Mae hefyd yn disgwyl y bydd angen dulliau cyflawni gwahanol os bydd y nifer sy'n manteisio ar y defnydd yn cyrraedd 20%, fel y mae'n disgwyl iddo ddigwydd. Nid yw'r dulliau hyn wedi'u datblygu eto.

### Diwygio'r cwricwlwm a chymwysterau

54 Bydd cyflwyno Cwricwlwm i Gymru newydd ar gyfer addysg cyn-16 yn effeithio ar y sector ôl-16[40]. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion i weithio gyda sefydliadau AB i gydweithio i gefnogi pontio dysgwyr, rhannu arfer gorau, a datblygu dealltwriaeth gyffredin o ddylunio, asesu a dilyniant y cwricwlwm. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno mewn ysgolion, bydd y cyd-ddatblygu hwn gyda sefydliadau AB cyfagos yn elfen allweddol o sicrhau bod y cwricwlwm yn gweithio i fyfyrwyr wrth iddynt adael addysg orfodol.

55 Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried maes o law a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i gymwysterau, cwricwla neu asesiadau ôl-16. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cymwysterau Safon T yn Lloegr, fel cymysgedd ffurfiol o astudio yn yr ystafell ddosbarth a lleoliadau ochr yn ochr â Safon Uwch. Bydd y cymwysterau newydd hyn yn disodli rhai cymwysterau galwedigaethol presennol yn Lloegr. Mae perygl y gallai'r datblygiad hwn leihau parodrwydd darparwyr cymwysterau galwedigaethol i barhau i gynnig cymwysterau sy'n dal i gael eu cefnogi yng Nghymru ond nad ydynt bellach yn cael eu hariannu yn Lloegr.

40 Llywodraeth Cymru, Canllawiau Cwricwlwm i Gymru, Ionawr 2020

56 Yn fwy cyffredinol, mae angen sicrhau bod cymwysterau yng Nghymru yn diwallu anghenion cyflogwyr gan hefyd barhau i fod yn gymaradwy iawn i gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi ledled y DU a thu hwnt. Mae Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am reoleiddio cymwysterau ac mae ganddo strategaeth sy'n seiliedig ar adolygiadau sector (sy'n canolbwyntio ar sectorau twf), wedi'i hategu gan fonitro cymwysterau penodol wedi'u targedu[41].

**Mae heriau o hyd i reoli effeithiau uniongyrchol COVID-19 ar ddysgwyr**

57 Bydd effaith y pandemig ar ddysgwyr unigol wedi amrywio ond mae pob un wedi profi aflonyddwch sylweddol. Mae'n ymddangos bod yr effaith wedi bod fwyaf negyddol i'r rhai yn y sector galwedigaethol, yn enwedig ar lefelau cymwysterau is, ac i ddysgwyr sydd eisoes yn agored i niwed oherwydd amddifadedd, amgylchiadau yn y cartref neu anableddau dysgu. Mae staff hefyd wedi bod dan straen sylweddol ac wedi gorfod addasu'n gyflym i addysgu a chymorth ar-lein. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o gefnogaeth i wasanaethau iechyd meddwl a lles, ac mae Colegau Cymru a Phrifysgolion Cymru yn credu bod cyfle i adeiladu ar ddarpariaeth iechyd meddwl yn ystod y pandemig i greu gwasanaeth mwy cynhwysfawr ac ymatebol ar draws pob lleoliad addysgol ôl-16.

58 Mae myfyrwyr a aeth i AB ac AU yn debygol o fod wedi profi amharu sylweddol ar eu dysgu ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i astudio ar y lefelau uwch. Bydd hefyd angen i rai myfyrwyr presennol ddal i fyny ar ddysgu a gollwyd a phrofiad ymarferol, a chyflwyno rhaglenni dysgu galwedigaethol a ohiriwyd mewn AB (**paragraff 30**). Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grantiau dal i fyny i golegau AB i gael cymorth i ddysgwyr. Mae'n debygol y bydd angen parhaus am gymorth sy'n debygol o fod angen adnoddau a chapasiti ychwanegol.

59 Mae'r pandemig wedi effeithio'n arbennig ar fyfyrwyr rhan-amser, yn enwedig y rhai mewn dysgu oedolion yn y gymuned, lle mai dim ond tua chwarter y cyrsiau sydd wedi parhau i gael eu cynnal. Mae hyn yn dod ar ben gostyngiad sydyn yn y ddarpariaeth ran-amser mewn colegau addysg bellach ers 2010, gan ei gwneud yn anos i bobl sy'n ceisio gwella eu sgiliau yn annibynnol ar eu cyflogaeth. Bydd angen i benderfyniadau ar lefel y ddarpariaeth yn y dyfodol ystyried dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu gydol oes a chreu llwybrau dysgu hyblyg sy'n galluogi unigolion i feithrin sgiliau newydd mewn ffordd sy'n gweddu i'w hamgylchiadau personol.

41 Cymwysterau Cymru, Strategaeth Gorfforaethol 2018 hyd at 2022, Ionawr 2018

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru